# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 20 RHAGFYR 2016 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | N J Davies | J W Jones |
| K E Marsh | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R A Clay, J A Hale a/ac E T Kirchner

14 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr R A Clay, J Hale, E T Kirchner a T Meredith, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Swyddog Monitro Dros Dro.

15 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

16 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2016 fel cofnod cywir.

17 **DEFNYDD O FEDDALWEDD MODERN.GOV GAN Y TÎM CRAFFU.**

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn amlinellu pryd byddai'r tîm craffu'n dechrau defnyddio meddalwedd Modern.gov.

Esboniodd fod materion pwysicach wedi dod i'r amlwg cyn cyflwyno'r adroddiad a bod y cyngor yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd 2016 wedi ystyried yr adroddiad 'Lwfansau band eang a ffôn, TGCh a ffonau symudol Cynghorwyr - mis Mai 2017 a'r tu hwnt'. Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem honno, ychwanegwyd argymhelliad arall a oedd yn nodi y byddai holl agendâu, adroddiadau'r tîm Craffu etc. yn defnyddio

meddalwedd Modern.gov erbyn mis Mai 2017. Penderfynodd y cyngor dderbyn yr argymhelliad ychwanegol.

Byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r Tîm Craffu yn y flwyddyn newydd i sicrhau eu bod yn hyddysg yn y defnydd o system feddalwedd Modern.gov cyn mis Mai 2017.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

18 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 19 MAI 2015 - 18 MAI 2016.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd 2015-2016 a oedd yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y cyfnod 19 Mai 2015 - 18 Mai 2016.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad a'i anfon ymlaen i’r Cyngor er gwybodaeth.

19 **CYNLLUN GWAITH.**

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y bwriedid cynnal y cyfarfod nesaf ar 28 Mawrth 2017; fodd bynnag, roedd yn debygol y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei alw ymlaen llaw i ystyried eitemau fel Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr 2017.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynllun gwaith ar gyfer 2016-2017 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| I'w gadarnhau | Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr 2017 |
| 28 Mawrth 2017 | Arddangosiad ar "ap" Modern.gov |
| 28 Mawrth 2017 | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2017-2018 - Chwefror 2017 |
| 2017-2018 | Arolwg Cynghorwyr ar Amseru Cyfarfodydd y Cyngor |

Daeth y cyfarfod I ben am 5.16 pm

**CADEIRYDD**